

Cynllun Corfforaethol 2015/17

Cyflawni dros Abertawe

Cynnwys

- 1. Rhagair
- 2. Ein Gweledigaeth
- 3. Ein Blaenoriaethau
- 4. Ein Gwerthoedd
- 5. Ein Hegwyddorion
- 6. Ein Cyflawniad
- 7. Blaenoriaeth 1 Diogelu pobl ddiamddiffyn
- 8. Blaenoriaeth 2 Gwella cyrhaeddiad disgyblion
- 9. Blaenoriaeth 3 Creu dinas ac economi lewyrchus a llawn addewid
- 10. Blaenoriaeth 4 Trechu Tlodi
- 11. Blaenoriaeth 5 Adeiladu cymunedau cynaliadwy
- 12. Camau Nesaf

Atodiad - Abertawe: Proffil a Heriau

_

Rhagair

Yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon

Mae'r Cynllun Corfforaethol hwn ar gyfer 2015/17, *Cyflawni dros Abertawe*, yn disgrifio gweledigaeth y cyngor ar gyfer Abertawe. Mae'n cynnwys 5 blaenoriaeth allweddol y cyngor a'n gwerthoedd a'n hegwyddorion trefniadaeth a fydd yn tanategu sut y byddwn yn cyflawni ein blaenoriaethau a'n strategaeth gyffredinol. Nid yw'r cynllun hwn yn cynnwys pob peth rydym yn ei wneud, ond mae'n canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf ar gyfer Abertawe.

Yr hyn a gyflawnwyd gennym yn y blynyddoedd diwethaf

Mae Abertawe wedi cyflawni llawer yn y blynyddoedd diwethaf. Mae rhai uchafbwyntiau'n cynnwys:

- Abertawe oedd yr awdurdod lleol cyntaf yn y DU i fabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) sy'n dangos ein hymrwymiad i blant a phobl ifanc.
- ➤ Rhoi Safon Abertawe ar waith sy'n canolbwyntio ar y cyngor a bod ein staff yn darparu gwasanaeth ardderchog i gwsmeriaid.
- Enwyd Abertawe fel Dinas Dysgu UNESCO y DU ac mae wedi mabwysiadu sgiliau entrepreneuraidd fel ei ffocws allweddol ac mae wedi llofnodi Datganiad Beijing ar gyfer Dinas Dysgu.
- Gweithio gyda phartneriaid a Llywodraeth Cymru i lansio'r Dinas-ranbarth ac mae strategaeth wedi cael ei mabwysiadu i ddenu buddsoddiadau ac i greu'r amodau cywir ar gyfer swyddi, busnesau a chyfoeth.
- Lansio adolygiad o ganol y ddinas, sy'n cynnwys ymgynghori â'r cyhoedd a'u cynnwys i helpu i lywio strategaeth datblygu'r dyfodol a chefnogi ceisiadau am arian yn y dyfodol.
- Cwblhau Strategaeth Trechu Tlodi a datblygu Fforwm Partneriaeth Tlodi Abertawe i helpu i ymdopi â thlodi ac effeithiau tlodi.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill drwy gynghorau de-orllewin Cymru a SWWITCH i bwyso ar y llywodraeth yn Llundain i ehangu trydaniad y brif reilffordd o Lundain i Abertawe.
- Cytuno ar strategaeth i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yn Abertawe yn ddiogel.

Yr heriau sydd i ddod

Mae Abertawe'n wynebu sawl her yn y blynyddoedd sydd i ddod, sy'n cynnwys:

- > Denu buddsoddiad economaidd.
- Adfywio canol dinas Abertawe a chymunedau ar draws Abertawe.
- Creu cyfleoedd cyflogi o safon.
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran iechyd, addysg, cyflogaeth a chyfleoedd bywyd rhwng pobl sy'n byw mewn gwahanol gymunedau yn Abertawe.
- Pwysau demograffig a galw cynyddol am wasanaethau cyhoeddus ar adeg pan fo toriadau sylweddol i wariant cyhoeddus.

Ein huchelgeisiau a'n hymrwymiadau i breswylwyr

Rydym am:

- > Ddiogelu Pobl Ddiamddiffyn er mwyn sicrhau bod ein dinasyddion yn ddiogel rhag niwed ac ecsbloetiaeth.
- Gwella Cyrhaeddiad Disgyblion fel bod pob plentyn a pherson ifanc yn Abertawe yn ennill y sgiliau a'r cymwysterau y mae eu hangen arnynt i lwyddo mewn bywyd.
- Creu Dinas ac Economi Lewyrchus a Llawn Addewid fel bod gan Abertawe ganol dinas defnydd cymysg ffyniannus a fydd yn hybu ffyniant ein dinasyddion.
- Trechu Tlodi er mwyn i bob person yn Abertawe allu cyflawni ei botensial.
- Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy fel bod lleoedd lle mae pobl yn byw ac yn gweithio ynddynt yn diwallu anghenion amrywiol preswylwyr presennol a rhai'r dyfodol.

Byddwn yn ymdrechu i wneud hyn drwy:

- Ganolbwyntio ar ddiwallu anghenion pobl a chyflawni amcanion.
- Gweithio gydag eraill pan fo'n fanteisiol ac yn ein helpu i ddiwallu anghenion pobl.
- Edrych ar ffyrdd gwahanol o weithio er mwyn bodloni heriau a gwella gwasanaethau i bobl Abertawe.
- > Rheoli pwysau gwario, lleihau costau a chyflawni gwasanaethau yn fwy effeithlon.
- Buddsoddi neu symud adnoddau i'n blaenoriaethau.
- Ymyrryd yn gynharach ac atal angen rhag cynyddu.
- Paratoi ein gweithwyr i allu ymateb i'r heriau a gwella'r modd y cyflwynir gwasanaethau.
- Sicrhau ein bod yn rhoi pwyslais ar gyflawni ein hymrwymiadau.

Ein gweledigaeth yw cael

Abertawe fwy diogel, gwyrdd, clyfar, teg, iach a chyfoethog

Ein Blaenoriaethau

Rydym am i Abertawe fod yn lle mwy llewyrchus gyda phoblogaeth addysgedig sydd â sgiliau o safon ac rydym am i nodweddion y ddinas gynnwys llai o wrthgyferbynnau ac eithafoedd tlodi. Rydym am wella lles fel bod cymunedau'n ddiogelach, yn iachach, yn fwy cydlynol ac yn gydnerthol fel y gall pawb gyflawni ei botensial.

Mae'r Cynllun Corfforaethol hwn yn nodi'r hyn y mae'r cyngor yn gobeithio ei gyflawni a sut y byddwn yn mesur cynnydd. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cyflawni ein rhwymedigaethau statudol i bennu 'Amcanion Gwella' o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a'r 'Amcanion Lles' o dan y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Amlinellir ein pum blaenoriaeth allweddol isod.

- Diogelu Pobl Ddiamddiffyn
- Gwella Cyrhaeddiad Disgyblion
- Creu Dinas ac Economi Lewyrchus a Llawn Addewid
- Trechu Tlodi
- Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy

Mae'r blaenoriaethau hyn yn cynrychioli prif amcanion y cyngor. Bydd rhai gwasanaethau'n cyflawni'r blaenoriaethau hyn yn uniongyrchol. Bydd eraill yn gwneud cyfraniad ar eu pennau eu hunain neu drwy weithio mewn partneriaeth ag eraill.

Nid yw'r cynllun hwn yn cynnwys pob peth rydym yn ei wneud. Mae'r cyngor yn darparu llawer o wasanaethau eraill sy'n bwysig ac a werthfawrogir gan breswylwyr, ond ni ellir blaenoriaethu popeth. **Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i Abertawe.**

Ar gyfer pob blaenoriaeth, mae'r cynllun yn nodi:

- Pam mae hyn yn flaenoriaeth?
- Beth sydd angen ei wella?
- Beth rydym am ei wneud?
- Pa wahaniaeth fydd ein camau gweithredu yn eu gwneud?
- Sut byddwn yn mesur cynnydd? ¹

¹Mae'r mesurau perfformiad yn y cynllun hwn yn amodol ar ddatblygiad ychwanegol a gallent newid.

Ein Gwerthoedd

Caiff ein cynlluniau eu seilio ar dri gwerth clir a fydd yn arwain sut rydym yn gweithio, sut rydym yn datblygu fel sefydliad a'n penderfyniadau yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Ffocws ar Bobl

Byddwn yn canolbwyntio ar anghenion a chanlyniadau cymunedau ac ar wella bywydau'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn Abertawe. Byddwn hefyd yn parchu, yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi ein gweithwyr ac yn dangos y safonau uchaf o gywirdeb.

Gweithio gyda'n Gilydd

Byddwn yn hyrwyddo ymagwedd partneriaeth gyfan, gan weithio ar draws gwasanaethau i wneud y mwyaf o adnoddau a gwybodaeth a byddwn yn gweithio gydag eraill y tu allan i'r cyngor i sicrhau ein bod yn blaenoriaethu ein hadnoddau er mwyn cael y gwasanaethau gorau ar gyfer ein cymunedau.

Arloesedd

Byddwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi diwylliant blaengar. Byddwn yn meddwl ac yn gweithio'n wahanol i wella ein gallu i gyflawni ac i ymdopi â'r heriau ariannol, demograffig a chymdeithasol rydym yn eu hwynebu.

Datblygir cynlluniau eglur ar draws yr holl wasanaethau yn nodi sut y byddwn yn cyflawni'r gwerthoedd hyn a sut y byddwn yn rhannu dysgu ar draws y cyngor fel rhan o'n Rhaglen Arloesedd.

Ein **Hegwyddorion**

Tanategir ein Cynlluniau a'n Blaenoriaethau gan dair egwyddor allweddol. Mae'r egwyddorion hyn yn hanfodol i gyflawni ein blaenoriaethau a chânt eu plethu drwy bopeth rydym yn ei wneud.

Cynaladwyedd

Byddwn yn gweithio i wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Abertawe. Mae hyn yn golygu sicrhau y diwellir anghenion y presennol heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu dyheadau. Dyma egwyddor allweddol sydd wrth wraidd ein strategaeth *Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol*, sy'n ymwneud â thrawsnewid gwasanaethau'r cyngor, sicrhau hyfywedd ariannol y cyngor a gwella canlyniadau i breswylwyr. Fel rhan o hyn, byddwn yn parhau i gynnwys a cheisio barn preswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth. Mae atal ac integreiddio wrth wraidd egwyddor cynaladwyedd a byddwn yn datblygu cynlluniau tymor hir er mwyn ymdrin â'n blaenoriaethau, gan weithio gydag eraill. Trwy'r ymagwedd hon, byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn bodloni gofynion y Bil Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol.

Ataliaeth

Byddwn yn ymyrryd yn gynharach er mwyn cefnogi pobl sydd mewn perygl, newid ymddygiad ac atal yr angen am wasanaethau arbenigol drud, gyda rhaglen gefnogi tymor hir yn aml. Bydd hyn yn helpu i gydnerthu teuluoedd a chymunedau, yn lleihau'r galw am wasanaethau'r cyngor, yn lleihau costau ac yn cyflawni canlyniadau gwell. Byddwn yn mabwysiadu ymagwedd cyngor gyfan at reoli'r galw am wasanaethau ac yn ymdrechu i wella ein dealltwriaeth o gyswllt cwsmeriaid a sut y gellir ailddylunio gwasanaethau er mwyn dileu, lleihau neu ddargyfeirio galw.

Partneriaethau

Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid ar draws y sectorau cyhoeddus, busnes a gwirfoddol drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a thrwy ffyrdd cydweithredol eraill er mwyn wynebu'r heriau a rennir gan Abertawe a'i chymunedau. Byddwn yn rhoi ymagwedd 'Tîm Abertawe' ar waith, gan weithio fel cyngor cyfan er mwyn sicrhau y gall pob gwasanaeth wneud ei ran wrth gyfrannu at ein blaenoriaethau ac er mwyn rhannu adnoddau ac arbenigedd. Er mwyn diwallu anghenion ein preswylwyr a mynd i'r afael â'r heriau sylweddol sy'n wynebu Abertawe, mae'n rhaid cael partneriaethau cynhyrchiol, integreiddio ein gwasanaethau'n well a rhannu adnoddau.


Disgwylir i'r holl wasanaethau ddangos sut y defnyddir yr egwyddorion hyn fel rhan o'u cynllun busnes a sut maent yn cyflwyno gwasanaethau o ddydd i ddydd.

Ein Cyflawniad


I ymdopi â'r heriau sy'n wynebu Abertawe ac i gyflawni ein blaenoriaethau, mae angen pwyslais clir ar adnoddau, cyflawni a gwella perfformiad. Mae hyn yn gofyn am raglen newid gref ac ymagwedd glir tuag at ariannu'r dyfodol, ein perthynas â chwsmeriaid a sut rydym yn rheoli ac yn cefnogi gweithwyr.

Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol

Nodir fframwaith strategol y cyngor ar gyfer y dyfodol yn ein strategaeth *Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol.* Mae'r strategaeth yn cynnwys pedair elfen allweddol:



Mae gan *Abertawe Gynaliadwy* 4 ffrwd waith ac 14 llinyn cyflwyno a fydd yn cyflawni'r newidiadau rydym yn gobeithio eu gweld i gefnogi'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Corfforaethol hwn:



Ein Cyllid

Mae cyllid llywodraeth ganolog wedi cael ei dorri dros y blynyddoedd diwethaf ac, yn seiliedig ar amcangyfrifon presennol, bydd y tuedd hwn yn parhau tan o leiaf 2020. Mae'r cyngor eisoes wedi gwneud arbedion sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf ac mae wedi lleihau uwch reolaeth draean.

Yn ôl arwyddion diweddaraf Llywodraeth Cymru, dylai awdurdodau lleol gynllunio ar gyfer lleihad o 4.5% mewn grant ym mhob un o'r 3 blynedd nesaf. Ynghyd â phwysau demograffaidd a gwasanaethau eraill, y bwlch ariannol a amcangyfrifir ar gyfer Cyngor Abertawe yw £30m ar gyfer 2015/16 a fydd yn cynyddu i £70m dros y ddwy flynedd wedyn.

Er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau yn gost-effeithlon, byddwn yn adolygu pob maes gwariant. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod gwasanaethau yn cynnwys pwysau gwariant o fewn eu cyllidebau dyranedig. Byddwn yn chwilio am ffyrdd i fod yn fwy effeithlon cyn torri gwasanaethau. Byddwn yn chwilio am ffyrdd blaengar i gynyddu ein hincwm. Byddwn yn ystyried modelau newydd a blaengar ar gyfer cyflwyno gwasanaethau a sut y gellir galluogi cymunedau i helpu eu hunain. Byddwn yn sicrhau y targedir adnoddau ar ardaloedd difreintiedig ac ar wasanaethau ataliol a rheoli galw.


Ein Cwsmeriaid

Ar wahân i'r heriau hyn, mae gan breswylwyr ddisgwyliadau rhesymol y bydd gwasanaethau'n gwella. Nid yw pobl yn hoffi ymagwedd sy'n 'addas i bawb' bellach. Maent am gael gwasanaethau sy'n gallu ymateb ac addasu i'w anghenion. Maent am gael mynediad i wasanaethau mewn ffyrdd gwahanol ac mewn ffyrdd sy'n fwy cyfleus iddynt. Byddwn yn symud cyswllt cwsmeriaid i byrth digidol hunanwasanaeth gan hyrwyddo cynhwysiad digidol. Byddwn yn cynnwys cwsmeriaid gan ddefnyddio eu syniadau a'u hadborth i wella gwasanaethau. Byddwn yn cyfuno ein gwasanaethau cwsmeriaid yn wasanaeth unigol a byddwn yn helpu cwsmeriaid i ddefnyddio'r dulliau cyswllt newydd. Ond mae'r heriau sydd o'n blaen hefyd yn gofyn am berthynas newydd rhwng preswylwyr a gwasanaethau cyhoeddus ac adlewyrchir hyn ym Mlaenoriaeth 5: Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy. Byddwn yn cefnogi preswylwyr, teuluoedd a chymunedau i fod yn fwy hunanddibynnol a chydnerthol ac i wneud mwy o bethau drostynt eu hunain.

Ein Gweithlu

Mae gweithlu a diwylliant sefydliad yn hanfodol er mwyn cyflawni ein nodau a sicrhau llwyddiant cyffredinol. Bydd rhaid i'n gweithwyr weithio'n wahanol i wynebu ein heriau. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen eu cyfarparu â sgiliau ac ymagweddau newydd a'u hannog i gyflawni eu potensial. Byddwn yn ymgorffori ein gwerthoedd corfforaethol, grym, arloesedd a chyfrifoldeb personol i'r diwylliant sefydliadol er mwyn i ni allu gwella gwasanaethau a chanlyniadau. Rydym am i weithwyr fod yn ymwybodol o beryglon ond i beidio â rhwystro arloesedd. Rydym am gael sefydliad lle caiff meddwl blaengar ei alluogi, ei annog a'i wobrwyo. Rydym am gael sefydliad lle caiff gweithwyr eu gwerthfawrogi a'u cefnogi a lle caiff llwyddiant ei wobrwyo. Rydym am gael sefydliad â diwylliant 'dim bai' a lle gwelir camgymeriadau fel cyfle i ddysgu ac i wella.

Ein Cynllun Corfforaethol ar dudalen





Pam mae hyn yn flaenoriaeth?

Mae Cyngor Abertawe yn ymrwymedig i sicrhau bod ei ddinasyddion yn ddiogel rhag niwed ac ecsbloetiaeth, gan gynnwys cam-drin yn y cartref, camfanteisio'n rhywiol ar blant, masnachu pobl a chaethwasiaeth modern. Rydym am i bobl allu byw mor annibynnol â phosib, a hynny yn eu cartrefi eu hunain. Rydym hefyd am i blant aros gyda'u teuluoedd neu dderbyn cefnogaeth mewn lleoliadau teuluol, lle mae'n ddiogel iddynt wneud hynny.

Beth sydd angen ei wella?

Mae angen ystyried diogelu pobl amddiffyn fel mater sydd o bwys i bawb ym mhob un o wasanaethau'r cyngor. Rydym hefyd angen cynyddu ymwybyddiaeth yn ein cymunedau a chyda'n sefydliadau partner.

Mae "diogelu" yn gysyniad ehangach nag amddiffyn plant ac oedolion ac mae'n ymwneud â hybu:

- Lles corfforol, emosiynol a meddyliol;
- Amddiffyn rhag niwed ac esgeulustod;
- · Addysg, hyfforddiant a hamdden;
- Cyfraniad i'r gymdeithas a'r economi.

Beth rydym am ei wneud?

Dylai pob sefydliad sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion fod yn ymrwymedig i ddiogelu ac i hybu eu lles a'u hiechyd.

- Byddwn yn sicrhau bod dealltwriaeth glir ymhlith staff, gwirfoddolwyr, cynghorwyr a'r rhai hynny sy'n gweithio ar ran y cyngor ynghylch y polisi diogelu corfforaethol a chanllawiau ar gyfer diogelu plant ac oedolion.
- Byddwn yn sicrhau bod gan bob gwasanaeth yn y cyngor ddealltwriaeth glir o sut mae'n cyfrannu at ddiogelu pobl a'i fod yn monitro hyn.

- Byddwn yn datblygu ac yn cyflwyno pecyn hyfforddiant diogelu i gael ei ddefnyddio ar draws holl wasanaethau'r cyngor yn ogystal â hyfforddiant arbenigol ar gyfer cynghorwyr.
- Byddwn yn datblygu fframwaith gwella perfformiad ac adrodd i fesur effaith y polisi Diogelu Gweithredol Corfforaethol.
- Byddwn yn sicrhau bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r
 Plentyn yn cael ei ymgorffori yn nhrefniadau diogelu corfforaethol y cyngor.
- Byddwn yn sicrhau bod gennym drefniadau effeithiol ar gyfer diogelu ac amddiffyn y rhai hynny sydd mewn perygl o niwed sylweddol ac ecsbloetiaeth, gan gynnwys cam-drin yn y cartref, camfanteisio'n rhywiol ar blant, masnachu pobl a chaethwasiaeth modern.
- Byddwn yn sicrhau bod dinasyddion yn gwybod lle i fynd i gael cyngor a chymorth ynghylch unrhyw bryderon diogelu sydd ganddynt.

Pa wahaniaeth fydd ein camau gweithredu yn eu gwneud a sut byddwn yn mesur cynnydd?

Canlyniad	Sut byddwn yn mesur cynnydd	Targed 2015/16	Targed 2016/17
Datblygiad Data - da	angosyddion perfformiad allweddo	ol a thargedau	ı i'w datblygu
Ymwybyddiaeth well o bolisi a threfniadau diogelu corfforaethol ymhlith gweithwyr y cyngor	Nifer/% sydd wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer diogelu pobl ddiamddiffyn a) Staff (a dargedir) b) Arweinwyr Dynodedig c) Aelodau Etholedig Nifer o ymweliadau â gwedudalen Diogelu Plant ac Amddiffyn Plant yr Awdurdod ar y StaffNet	Datblygu Dat dangosyddior allweddol a th datblygu	n perfformiad
Gall pob cyfarwyddiaeth brofi eu bod yn deall sut maent yn cyfrannu	Caiff diogelu ei gynnwys yn briodol mewn cynlluniau busnes a chofrestrau perygl	Datblygu Dat dangosyddioi allweddol a th datblygu	n perfformiad
at ddiogelu pobl a monitro eu heffeithiolrwydd	Nifer/% gwiriadau GDG: a) Cadarnhaol b) Rhagorol		

Sut byddwn yn mesur cynnydd	Targed 2015/16	Targed 2016/17
Nifer/% y gweithwyr newydd sy'n cwblhau hyfforddiant sefydlu (e- ddysgu)	Datblygu Data - dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau i'w	
% yr ymatebwyr (yr arolwg) yr esboniwyd iddynt beth yw eu cyfrifoldebau o ran diogelu ac amddiffyn plant pan wnaethant ddechrau eu swydd yn y cyngor/ysgol		
% yr ymatebwyr (yr arolwg) yr esboniwyd iddynt beth yw eu cyfrifoldebau o ran diogelu ac amddiffyn plant pan wnaethant ddechrau eu swydd yn y cyngor/ysgol	dangosyddion	perfformiad
% y staff (yr arolwg) sy'n gwybod pwy yw'r Cynghorydd Arweiniol ar gyfer diogelu		
% y staff (yr arolwg) sy'n gwybod pwy yw arweinydd dynodedig eu hadran ar gyfer diogelu		
Nifer/% y cyfeiriadau mewn perthynas â diogelu: a) Datgelu camarfer b) Cwynion c) Cyfeiriadau anhysbys d) Contractio		
Nifer yr asesiadau lles gorau ar gyfer oedolion sydd â diffyg gallu Nifer y gwasanaethau mewn pryderon cynyddol Nifer y plant sy'n anabl ac yn y system amddiffyn plant Nifer yr adolygiadau arferion	dangosyddion	perfformiad
	Nifer/% y gweithwyr newydd sy'n cwblhau hyfforddiant sefydlu (eddysgu) % yr ymatebwyr (yr arolwg) yr esboniwyd iddynt beth yw eu cyfrifoldebau o ran diogelu ac amddiffyn plant pan wnaethant ddechrau eu swydd yn y cyngor/ysgol % yr ymatebwyr (yr arolwg) yr esboniwyd iddynt beth yw eu cyfrifoldebau o ran diogelu ac amddiffyn plant pan wnaethant ddechrau eu swydd yn y cyngor/ysgol % y staff (yr arolwg) sy'n gwybod pwy yw'r Cynghorydd Arweiniol ar gyfer diogelu % y staff (yr arolwg) sy'n gwybod pwy yw arweinydd dynodedig eu hadran ar gyfer diogelu Nifer/% y cyfeiriadau mewn perthynas â diogelu: a) Datgelu camarfer b) Cwynion c) Cyfeiriadau anhysbys d) Contractio Nifer yr asesiadau lles gorau ar gyfer oedolion sydd â diffyg gallu Nifer y gwasanaethau mewn pryderon cynyddol Nifer y plant sy'n anabl ac yn y system amddiffyn plant	Nifer/% y gweithwyr newydd sy'n cwblhau hyfforddiant sefydlu (eddysgu) % yr ymatebwyr (yr arolwg) yr esboniwyd iddynt beth yw eu cyfrifoldebau o ran diogelu ac amddiffyn plant pan wnaethant ddechrau eu swydd yn y cyngor/ysgol % yr ymatebwyr (yr arolwg) yr esboniwyd iddynt beth yw eu cyfrifoldebau o ran diogelu ac amddiffyn plant pan wnaethant ddechrau eu swydd yn y cyngor/ysgol % y staff (yr arolwg) sy'n gwybod pwy yw'r Cynghorydd Arweiniol ar gyfer diogelu % y staff (yr arolwg) sy'n gwybod pwy yw arweinydd dynodedig eu hadran ar gyfer diogelu Nifer/% y cyfeiriadau mewn perthynas â diogelu: a) Datgelu camarfer b) Cwynion c) Cyfeiriadau anhysbys d) Contractio Nifer yr asesiadau lles gorau ar gyfer oedolion sydd â diffyg gallu Nifer y gwasanaethau mewn pryderon cynyddol Nifer y plant sy'n anabl ac yn y system amddiffyn plant Nifer yr adolygiadau arferion

Canlyniad	Sut byddwn yn mesur cynnydd	Targed 2015/16	Targed 2016/17
Mae trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer diogelu ac amddiffyn y rhai hynny sydd mewn perygl o niwed sylweddol ac	Nifer/cyfradd cyfeiriadau diogelu a) Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion b) Gwasanaethau Plant a Theuluoedd	Gwaelodlin mewn cyfradd/mis cyffredin a) 100-150 b) 100-150	a) a b) Lleihau cyfeiriadau o 5%, drwy ymwybyddiaeth gyffredinol well a mesurau ataliol
ecsbloetiaeth	a) Nifer/% y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant b) Cyfradd am bob 1000 (poblogaeth 0-17)	a) 200-250 b) rhwng 40 a 60	a) 200-250 b) rhwng 40 a 60
	Nifer/% y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant sydd wedi cael eu dadgofrestru ac yna eu cofrestru eto.	12-16%	10-15%
	% y plant sy'n peri pryder o ran ecsbloetiaeth lle caiff y perygl ei reoli	100%	100%
	% y plant aeth ar goll ac a ddychwelodd yn ddiogel o fewn 24 awr	Gwaelodlin i'w phennu	90-100%
	Nifer/% y penderfyniadau diogelu a wnaed o fewn 24 awr: a) Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion b) Gwasanaethau Plant a Theuluoedd	a) Gwaelodlin i'w phennu b) 100- 150%	a) 100-150% b) 100-150%
	% y cyfeiriadau diogelu (Gofal Cymdeithasol i Oedolion) lle cafodd y perygl ei reoli	a) 90-150%	b) 92-150%
	% y cyfeiriadau diogelu lle cafodd y perygl ei reoli, sy'n ymwneud ag unigolyn â diffyg gallu, o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol	a) Gwaelodlin i'w phennu	b) Targed i gael ei bennu ar ôl y waelodlin



Pam mae hyn yn flaenoriaeth?

Rydym am i bob plentyn a pherson ifanc yn Abertawe gael y sgiliau a'r cymwysterau y mae eu hangen arnynt i lwyddo mewn bywyd. Ar hyn o bryd, mae gormod o blant a phobl ifanc yn colli'r ysgol yn rheolaidd ac o ganlyniad nid ydynt yn ennill y sgiliau a'r cymwysterau y mae eu hangen arnynt i fynd ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Beth sydd angen ei wella?

Rydym angen sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd er mwyn cael cyfle gwell i wella eu sgiliau a'u cymwysterau. Mae deilliannau addysgol yn Abertawe wedi gwella'n dda dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar wella deilliannau ar gyfer POB plentyn a pherson ifanc. Bydd codi dyheadau a gwaith effeithiol yn sicrhau na fydd tlodi ac anfantais yn atal gwelliant a chyfleoedd.

Beth rydym am ei wneud?

Bydd ysgolion â phresenoldeb isel yn cael eu herio i wella. Bydd swyddogion yr awdurdod yn gweithio gyda phob un o'r ysgolion hyn i sicrhau eu bod yn gwybod yr hyn mae'n rhaid iddynt ei wneud i wella.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar lythrennedd yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda phob oedran fel bod disgyblion yn gallu darllen a dilyn y cwricwlwm. Bydd llwyddiant disgyblion yn cael ei fonitro ar ddiwedd pwyntiau allweddol mewn addysg statudol hyd at 16 oed.

Bydd ysgolion â pherfformiad isel yn cael eu herio i wella. Bydd mwy o bwyslais ar ysgolion yn helpu ei gilydd yn ogystal â chael eu cefnogi gan yr awdurdod.

Pa wahaniaeth fydd ein camau gweithredu yn eu gwneud a sut byddwn yn mesur cynnydd?

Canlyniad	Sut byddwn yn mesur cynnydd	Targed 2015/16 (Blwyddyn Academaidd 2014-15)		Targed 2016/17 (Blwyddyn Academaidd 2015-16)	
Cyrhaeddiad addysgol gwell i ddisgyblion	Cyfraddau presenoldeb gwell mewn ysgolion cynradd	94.6%		94.7%	
	Cyfraddau presenoldeb gwell mewn ysgolion uwchradd			93.6%	
	Cyrhaeddiad gwell i ddisgyblion 16 oed a fesurir drwy Lefel 2 Cymraeg/Saesneg a Mathemateg	57%		58%	
	Asesiadau a phrofion CYMRAEG a SAESNEG	Saesneg	Cymraeg	Saesneg	Cymraeg
	Y Cyfnod Sylfaen	84.4%	89.8%	85.4%	90.0%
	CA2 Lefel 4+	90.4%	91.7%	91.4%	91.7%
	Profion Llythrennedd Cenedlaethol ar gyfer Blwyddyn 2-9 - sgôr safonol o 85+/safle yng Nghymru	Gwella gwaelodlin 2013-14, sef 84.9/6ed	Gwella gwaelodlin 2013-14, sef 84.5/13eg	Gwella ²	
	Profion Rhifedd	Gweithdrefnol	Rhesymu		
	Cenedlaethol ar gyfer Blwyddyn 2-9 - sgôr safonol o 85+/safle yng Nghymru	Gwella gwaelodlin 2013-14, sef 84.7/9fed	Gwella gwaelodlin 2013-14, sef 84.5/8fed	Gwella ¹	

² 2013-14 oedd y flwyddyn brofi gyntaf â deilliannau cadarn felly ni ellir gosod targedau mesuradwy eto



Creu Dinas ac Economi Lewyrchus a Llawn Addewid

Pam mae hyn yn flaenoriaeth?

Mae Abertawe wrth wraidd y dinas-ranbarth ac mae llwyddiant y rhanbarth yn y dyfodol yn dibynnu ar ganol dinas llewyrchus a llawn addewid. Bydd canol dinas aml-ddefnydd a llwyddiannus yn cefnogi ffyniant ein dinasyddion ac yn helpu i gyflawni'r uchelgeisiau gwrthdlodi ar gyfer Abertawe.

Beth sydd angen ei wella?

- Atyniad a bywiogrwydd canol y ddinas.
- Creu ardaloedd gwell ar gyfer manwerthu, swyddfa, hamdden a phreswyl.
- · Creu mwy o swyddi o safon.
- Helpu'r rhai sydd wedi bod yn ddiwaith am amser hir a'r rhai sy'n anweithgar yn economaidd i ddod o hyd i swyddi.
- Creu cyrchfan ar gyfer ymwelwyr, siopwyr, busnesau a phreswylwyr.
- Atgyfnerthu rôl canol y ddinas wrth wraidd y dinas-ranbarth.

Beth rydym am ei wneud?

I gyflawni hyn, byddwn yn:

- Gweithio i adfywio canol y ddinas yn ffisegol yn unol â'n fframwaith strategol ddiwygiedig ar gyfer canol y ddinas - yn benodol, adeiladu a gwella eiddo a defnyddio isadeiledd galluogi i gefnogi datblygiadau safle.
- Sicrhau cefnogaeth ariannol rhanbarthol, gan Lywodraeth Cymru ac Ewrop er mwyn adfywio canol y ddinas.
- Hwyluso cwblhad briffiau datblygu, marchnata safleoedd a phenodi datblygwyr.
- Denu datblygiad mewnfuddsoddi brodorol newydd.
- Creu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant drwy ddefnyddio Y Tu Hwnt i Frics a Morter.
- Cydnabod pwysigrwydd isadeiledd digidol cystadleuol i gefnogi twf economaidd, buddsoddiadau ac enillion cynhyrchiant y ddinas.
- Rhagweld y bydd nifer yr ymwelwyr yn cynyddu dros amser o ganlyniad i fuddsoddiadau.

Pa wahaniaeth fydd ein camau gweithredu yn eu gwneud a sut byddwn yn mesur cynnydd?

Canlyniad	Sut byddwn yn mesur cynnydd	Targed 2015/16	Targed 2016/17
Datblygiad manwerthu a hamdden llewyrchus newydd ar safle Dewi Sant	Safle marchnad a dewis datblygwr a ffefrir Sicrhau caniatâd cynllunio	Marchnata'r safle/dewis datblygwr - 1	Sicrhau caniatâd cynllunio - 1
Arwynebedd llawr masnachol o ansawdd gwell a fydd yn creu mwy o swyddi	Olrhain datblygiad a chofnodi arwynebedd llawr	Creu 1,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr	Creu 1,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr
Creu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant	Monitro gan Y Tu Hwnt i Frics a Morter	Darparu 200 o wythnosau hyfforddi i	Darparu 950 o wythnosau hyfforddi i
Cyfleoedd gwell i fyw yn y ddinas	Monitro Argaeledd Tir ar gyfer Tai	Creu 55 o unedau newydd	Creu 90 o unedau newydd



Pam mae hyn yn flaenoriaeth?

Ein gweledigaeth yw y bydd dinasyddion Abertawe'n llawn dyheadau a bydd ganddynt yr hyder a'r adnoddau i wireddu eu dyheadau. Rydym am i bawb, lle bynnag maent yn byw, fyw mewn lle ffyniannus a chefnogol, lle maent yn teimlo'n falch eu bod yn perthyn i'r gymuned. Rydym am i bobl feddu ar ddyheadau ar gyfer eu cymunedau a'u teuluoedd sy'n rhoi her a boddhad iddynt ac sy'n eu hysbrydoli. Rydym am greu cymunedau uchelgeisiol, lle bydd pobl ifanc yn ymdrechu i gael dyfodol gwell, a lle byddant yn cael y cymorth a'r gefnogaeth sy'n angenrheidiol i gyflawni'r nod. Rydym am ddarparu modelau rôl cryf ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n eu helpu i ddysgu a chael profiad o opsiynau newydd nad oeddent erioed wedi dychmygu eu cael o'r blaen. Yn bennaf oll, rydym am i bobl ymfalchïo yn Abertawe fel lle i fyw ynddo.

At ddiben Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, mae Cymru wedi'i rhannu yn 1,896 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA). Mae gan Abertawe gyfran uwch na'r cyfartaledd o LSOA yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda 17 (12%) o'i 147 LSOA bellach yn y 190 (10%) uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig. Gellir mynegi graddfa'r anghydraddoldeb yn Abertawe drwy'r ffaith fod gan Abertawe draean o'r LSOA mwyaf cefnog yng Nghymru hefyd.

Beth sydd angen ei wella?

Mae'n rhaid i'r cyngor wneud pethau'n wahanol a sicrhau bod y sefydliad cyfan yn canolbwyntio ar ymdrechion i drechu tlodi. Mae'r Strategaeth Trechu Tlodi, a gymeradwywyd yn ddiweddar, yn amlinellu tair ardal allweddol i'r cyngor eu datblygu:

- Grymuso Pobl Leol
- Newid Diwylliannau
- Targedu Adnoddau

Amlinellir ardaloedd penodol i'w gwella yng Nghynllun Gweithredu'r Strategaeth o dan bob un o'r penawdau hyn. Amlinellir y canlyniadau rydym am eu newid isod.

Beth rydym am ei wneud?

Mae'r cyngor wedi datblygu strategaeth a chynllun gweithredu Trechu Tlodi sy'n canolbwyntio ar gyfres glir o weithgareddau i fynd i'r afael â thlodi ac i gynnwys y bobl hynny sy'n ei brofi.

Byddwn yn:


- Ceisio ailgyfeirio adnoddau i gefnogi'r agenda hon.
- Cyflwyno partneriaeth i gydlynu gwasanaethau'n well yn lleol.
- · Ceisio adleoli mwy o'n gweithlu i'r gymuned.
- Cyflwyno cyfleoedd proffil uchel i bobl sy'n profi tlodi herio arweinwyr ffydd, busnes a dinesig.
- Creu mwy o gyfleoedd i bobl leol gael mwy o ddylanwad ar yr hyn sy'n digwydd yn eu hardal.
- Parhau i ddatblygu mwy ar ein gwaith presennol yn yr ardal hon drwy nifer o raglenni, megis Cymunedau'n Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.

Pa wahaniaeth fydd ein camau gweithredu yn eu gwneud a sut byddwn yn mesur cynnydd?

Byddwn yn monitro'r cynllun gweithredu i sicrhau bod y cyngor yn cyflawni ei amcanion allweddol, a amlinellwyd uchod. Mae'r mesurau isod yn rhestru'r cynnydd bydd y cyngor yn ei wneud gyda'r Fframwaith Perfformiad Trechu Tlodi a thrwy gynnwys partneriaid wrth gyflawni'r canlyniadau, a restrir isod.

Canlyniad	Sut byddwn yn mesur cynnydd	Targed 2015/16	Targed 2016/17
Plant yn cael dechrau da mewn bywyd - plant yn barod am yr ysgol ac yn barod i	Cwblhau a chyflwyno'r Strategaeth Paratoi Plant ar gyfer yr Ysgol (Strategaethau	Cyflwyno'r cynllun gweithredu	Lleihau'r bwlch yn nata'r PADP rhwng dengraddau 1 a
ddysgu	Blynyddoedd Cynnar)		10
Swyddi da i bobl ifanc ac oedolion Pobl ifanc mewn gwaith	Rhoi'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid ar waith	Datblygu a darparu'r rôl Gweithiwr Arweiniol ar gyfer pobl ifanc a'u teuluoedd	Mae'r bobl ifanc fwyaf diamddiffyn yn derbyn cefnogaeth
	Nifer y bobl ifanc 16- 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant	Cyfradd NEET yn 3.7%	Cyfradd NEET yn 3.5%

Canlyniad	Sut byddwn yn mesur cynnydd	Targed 2015/16	Targed 2016/17
Safon byw ddigonol i bobl - pobl yn hawlio budd- daliadau priodol. Mwy o bobl sy'n wynebu newidiadau Diwygio Lles yn derbyn cefnogaeth.	Datblygu'r Cynllun Cyflawni Lleol ar gyfer rhoi Credyd Cynhwysol ar waith	Hawlwyr unigol sy'n derbyn Lwfans Ceisio Gwaith i drosglwyddo i'r Credyd Cynhwysol gan achosi cyn lleied o anghyfleustra a dyled â phosib	Cynllunio trosglwyddo mwy o breswylwyr i CC gyda phartneriaid a'i roi ar waith
	Nifer y staff sydd wedi'u hyfforddi mewn hawliau lles a chyngor budd-daliadau - Credyd Cynhwysol	600	700
Pobl yn iach, yn ddiogel ac yn annibynnol - llai o bobl yn cael eu heffeithio gan drosedd Gwobr y Faner Borffor	Ennill gwobr y Faner Borffor am fywyd nos iach	Ennill gwobr y Faner Borffor	Cynnal a chadw gwobr y Faner Borffor a gwelliannau parhaus i fywyd nos iach y ddinas
Abertawe yn lleihau a lliniaru effeithiau tlodi drwy gyflawni'r strategaeth trechu tlodi	Cyflawni'r cynllun gweithredu trechu tlodi	Dechrau 40% o weithgareddau yn y flwyddyn gyntaf	Dechrau 80% o weithgareddau yn yr ail flwyddyn



Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy

Pam mae hyn yn flaenoriaeth?

Rydym angen adeiladu a chefnogi cymunedau cynaliadwy oherwydd bydd hyn yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl ac yn lleihau costau gwasanaethau. Mae Cymunedau Cynaliadwy yn rhai lle mae pobl am fyw, gweithio a magu eu teuluoedd ynddynt. Dyma gymunedau lle caiff y bobl ddiamddiffyn gefnogaeth, lle gall pobl reoli busnesau a lle mae teuluoedd yn gweithio'n dda ac yn aros gyda'i gilydd.

Mae modelau presennol ar gyfer cyflwyno gwasanaethau yn anghynaliadwy ac nid ydynt bob amser yn darparu'r canlyniadau gorau i bobl. Mae Abertawe'n newid ac mae anghenion preswylwyr yn newid hefyd. Mae trawsnewid gwasanaethau yn hanfodol i ymdopi â heriau'r dyfodol ac mae mwy o frys i wneud hyn oherwydd y toriadau sylweddol i'r gyllideb rydym yn eu hwynebu.

Hefyd mae angen perthynas newydd rhwng preswylwyr a gwasanaethau cyhoeddus. Mae angen i breswylwyr, teuluoedd a chymunedau fod yn fwy hunanddibynnol a chydnerthol a gwneud mwy o bethau drostynt eu hunain. Mae'n rhaid i'n polisi cynllunio a'n hymagwedd at reoli asedau sicrhau y gellir cynnal cymunedau a bod ganddynt yr asedau gofynnol.

Beth sydd angen ei wella?

Mae chwe phrif faes lle mae angen newid a gynhelir yn y tymor hir:

- Cefnogi pobl a chymunedau i helpu eu hunain ac i gynnal mwy o wasanaethau lleol.
- Canolbwyntio ar gamau gweithredu atal ac ymyrryd yn gynnar.
- Dealltwriaeth newydd â phreswylwyr am rôl y cyngor yn y dyfodol a'r hyn y byddwn ac na fyddwn yn ei wneud yn y dyfodol.
- Newid ar draws y system gan weithio gyda phartneriaid ar draws Abertawe.
- Sicrhau bod ein Polisi Cynllunio a'r Cynllun Datblygu Lleol yn cyfrannu at adeiladu cymunedau sy'n parhau i fod yn gydlynol ac yn hyfyw.
- Sicrhau bod asedau cymunedol (pobl a lleoedd) yn defnyddio'r ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon o ddarparu gwasanaethau i'r rhai y mae eu hangen arnynt fwyaf.

Beth rydym am ei wneud?

Rydym yn bwriadu:

- Rhoi amrywiaeth o gynlluniau newydd ar waith gan ddefnyddio Cyllideb Atal â'r nod o leihau'r angen am wasanaethau yn y tymor hir.
- Hyrwyddo annibyniaeth er mwyn i bobl allu byw gartref neu yn y gymuned am fwy o amser a lleihau nifer y bobl sy'n symud i ofal preswyl.
- Gweithio gyda'r sectorau gwirfoddol a chymunedol yn Abertawe i hyrwyddo gweithredu yn y gymuned, meithrin gallu a datblygu prosiectau er mwyn i gymunedau gynnal gwasanaethau, rheoli asedu a gweithio'n gydlynol.
- Ymdrechu i gynnwys cymunedau yn fwy ehangach o ran rôl y cyngor yn y dyfodol a'r hyn y byddwn yn disgwyl i breswylwyr, teuluoedd a chymunedau ei wneud yn y dyfodol i gefnogi eu hunain.
- Cytuno ar ymagwedd newydd at integreiddio gwasanaethau, cyllidebau cymunedol ac ar y cyd a chyflwyno ar y cyd â'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.
- Defnyddio ein Polisi Cynllunio a'r Cynllun Datblygu Lleol i sicrhau bod datblygiadau'n gynaliadwy a bod gan gymunedau'r asedau a'r gefnogaeth y mae eu hangen arnynt.
- Ymrwymo i gynnal adolygiadau ardal o'r holl asedau ac archwilio cyfleoedd ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol.

Pa wahaniaeth fydd ein camau gweithredu yn eu gwneud a sut byddwn yn mesur cynnydd?

Canlyniad	Sut byddwn yn mesur cynnydd	Targedau 2015/16	Targedau 2016/17
Mwy o bobl yn cynnal gwasanaethau lleol	Nifer y prosiectau ym mhob ward	Gwaelodlin i'w phennu	I'w benderfynu
	Nifer y ceisiadau Ilwyddiannus o'r Gronfa Trawsnewid Cymunedau	Gwaelodlin i'w phennu	I'w benderfynu
Mwy o bobl yn byw gartref neu yn y gymuned	Nifer y prosiectau yn y Gyllideb Atal sy'n cyflawni eu hamcanion	Gwerthuso pob prosiect yn y Gyllideb Atal yn unigol o ran gwerth am arian	I'w benderfynu
	% y cleientiaid sy'n oedolion sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned yn ystod y flwyddyn	I gael ei benderfynu ar ôl cwblhau'r Adolygiad Pobl Hŷn	I'w benderfynu

Canlyniad	Sut byddwn yn mesur cynnydd	Targedau 2015/16	Targedau 2016/17
Pobl yn byw mewn cymunedau cydnerthol	% y bobl ar draws Abertawe sy'n credu eu bod yn byw mewn lle da	Dim llai na 89%	Dros 89%
	% y bobl sy'n credu eu bod yn cymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu cymdogaeth	Dim llai na 28%	Dros 28%
	% y bobl sy'n credu bod pobl o ddiwylliannau gwahanol yn cyd- dynnu'n dda â'i gilydd	Dim llai na 76%	Dros 76%
Cynnydd mewn gweithio amlasiantaeth	Nifer y timau ardaloedd lleol ar y cyd	3	3
	Nifer y cydlynwyr ardal leol	3	13
	Nifer y cyllidebau ar y cyd	Datblygu'r fethodoleg	I'w benderfynu
Polisi Cynllunio yn cefnogi cymunedau cynaliadwy	Datblygu mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Abertawe (CDLI)	Paratoi a chyflwyno'r CDLI Adnau i Lywodraeth Cymru ar gyfer archwiliad annibynnol	Mabwysiadu'r CDLI
Cwblhau adolygiadau o asedau cymunedol	Adolygiadau ardal o asedau ac archwilio cyfleoedd ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol	-	Cwblhau erbyn mis Mehefin 2016

_

 $^{^3}$ Cyflawnir y canlyniad hwn drwy gydweithio rhwng partneriaid. Targedau dros dro yw'r rhain yn amodol ar gytundeb partneriaeth.

Camau Nesaf

Sut byddwn yn monitro cynnydd

- Fel rhan o'r fframwaith gwella perfformiad rheolaidd, Dangosfwrdd Perfformiad Abertawe.
- Adroddiadau misol i'r Bwrdd Gweithredol ac mewn cyfarfodydd Monitro Perfformiad ac Ariannol.
- Fforwm Tlodi'r cyngor cynllun gweithredu a fframwaith perfformiad o fewn y Strategaeth Tlodi.
- Ymgorffori atebolrwydd dros gyflawni yn yr Amcanion i Aelodau'r Cabinet a Chyfarwyddwr/Penaethiaid Gwasanaeth.

Sut byddwn yn adrodd ar gyflawniadau

- Bob chwarter drwy'r cabinet.
- · Adroddiad bob chwe mis i'r cyngor.
- Adolygiad Perfformiad Blynyddol.
- Ar wefan y cyngor a chyhoeddi cyflawniadau drwy ddefnyddio astudiaethau achos.

Pryd a sut caiff y cynllun hwn ei ddiwygio

Diwygiad blynyddol, a gymeradwyir gan y cyngor

Gwybodaeth ddefnyddiol arall, e.e. sut mae hyn yn cysylltu â Chynllun Un Abertawe

- Mae blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol hwn wedi'u cysylltu'n agos â
 Chynllun Un Abertawe a chânt eu llywio gan yr asesiad o anghenion ar y cyd
- Bydd rhaid i ni gydweithio gyda'n partneriaid ar yr holl gamau gweithredu hyn i gyflawni'r canlyniadau, gan gynnwys ein hymagwedd ar y cyd ynghylch cynnwys y gymuned.
- Byddwn yn gweithio gyda Bwrdd Gwasanaethau Lleol Abertawe i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Atodiad - Proffil a Heriau Abertawe

Abertawe yw'r ail ddinas fwyaf yng Nghymru a'r ganolfan ranbarthol ar gyfer deorllewin Cymru. Mae yng nghanol arfordir de Cymru ac mae'n ffinio Castell-nedd Port Talbot i'r dwyrain a Sir Gâr i'r gorllewin.

Mae'n cynnwys arwynebedd tir o 378 cilomedr sgwâr a gellir ei rhannu'n fras i bedair ardal ddaearyddol; gweundiroedd agored ucheldiroedd Lliw i'r gogledd, Penrhyn gwledig Gŵyr yn y gorllewin, gan gynnwys Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr (AoHNE), yr ardaloedd maestrefol sy'n ymestyn o ymyl Abertawe i aneddiadau yn y gorllewin a gerllaw coridor yr M4 a'r stribed arfordirol o gwmpas Bae Abertawe.

Mae amgylchedd naturiol Abertawe o ansawdd ardderchog ac mae'n un o siroedd mwyaf bioamrywiol y DU. Mae tua 17% o ardal y sir wedi'i gwarchod gan ddynodiadau Ewropeaidd neu Genedlaethol megis Ardal Gwarchod Arbennig (AGA), safleoedd Ramsar a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI). Nodwyd bod 30% arall o ddiddordeb ecolegol lleol arwyddocaol, gan gynnwys Gwarchodfeydd Natur Lleol a gwarchodfeydd yr Ymddiriedolaeth Natur.

Demograffeg allweddol

Cyfanswm poblogaeth Dinas a Sir Abertawe ar hyn o bryd yw 240,300 (Amcangyfrifiad Canol Blwyddyn 2013), sy'n nodi cynnydd o 0.3% (700) o gymharu ag amcangyfrifiad 2012. Mae gan Abertawe bellach yr ail boblogaeth awdurdod lleol fwyaf yng Nghymru, ar ôl Caerdydd, ac mae wedi cynyddu am 11 blwyddyn yn olynol ers 2001.

Y prif beth sy'n gyfrifol am dwf poblogaeth yn Abertawe yw mudo, gyda'r rhan fwyaf o dwf bob blwyddyn o ganlyniad i fudo mewnol/o'r DU.⁴

Mae nifer y bobl rhwng 20 a 24 oed wedi cynyddu 31.4% dros y 10 mlynedd ddiwethaf ac mae hynny'n gysylltiedig â'r nifer cynyddol o fyfyrwyr sy'n mudo yma, gan gynnwys rhai o dramor.

Fodd bynnag, mae poblogaeth Abertawe'n heneiddio hefyd gyda chynnydd sylweddol yn nifer o bobl 65+ oed rhwng 2001 a 2012. Yn ogystal â hyn, mae gan Abertawe gyfran uwch o bobl 80+ oed na chyfartaledd Cymru a'r DU.

Er bod cyfran y bobl o grŵp ethnig nad ydynt yn wyn sy'n byw yn Abertawe yn eithaf isel, 6% o gyfanswm y boblogaeth, mae'n uwch na chyfartaledd presennol Cymru, sy'n 4.4%, ac mae wedi cynyddu 198% (9,500) rhwng 2001 a 2012. Y grwpiau ethnig nad ydynt yn wyn mwyaf yn Abertawe yw'r cymunedau Tsieineaidd (0.9%) a Bangladeshaidd (0.8%).

⁴Fodd bynnag, mae'r gyfradd geni wedi cynyddu rhyw faint ers 2008 hefyd.

Ar hyn o bryd mae 104,000 o aelwydydd preswyl yn Abertawe, sy'n dangos cynnydd o 9.3% (8,900) yn nifer yr aelwydydd ers 2001. Mae'r ffigur hwn ychydig yn uwch na chyfartaledd cyfradd twf aelwydydd Cymru, sef 7.5%.

Y strwythur aelwyd mwyaf cyffredin yn Abertawe yw aelwydydd 'oedolyn' unigol, wedyn aelwydydd i ddau berson (nid plant). Mae nifer a chyfran y teuluoedd rhiant sengl (1 oedolyn ac 1 neu fwy o blant) wedi cynyddu rhwng 2002 a 2012 ac ar hyn o bryd mae'n cynrychioli 11.7% o'r holl aelwydydd yn Abertawe.

Mae cyfraddau gweithgaredd economaidd a chyflogaeth yn Abertawe yn is na chyfartaledd Cymru ac yn is eto o dan gyfraddau cyfwerth y DU (fodd bynnag, mae nifer uchel y myfyrwyr yn Abertawe yn effeithio ar y ffigurau hyn). Mae cyfran y bobl yn Abertawe sy'n weithgar yn economaidd wedi cynyddu rhwng 2001 a 2011, er fod hyn ychydig yn is na chyfartaledd presennol Cymru.

O'r 101,700 o bobl â swydd sy'n byw yn Abertawe, mae bron 9 allan o 10 o bobl (91,000) wedi'u cyflogi yn y sector gwasanaeth. Mae bron traean y bobl â swydd (32,000) yn gweithio yn y sector cyhoeddus. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 26.1%, a chyfartaledd y DU.

Yn gyffredinol, mae nifer a chyfran y bobl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith yn Abertawe dros y 10 mlynedd ddiwethaf wedi lleihau'n sylweddol, ond llai na'r gostyngiadau cyfwerth ar gyfer Cymru a'r DU. Yn Abertawe, mae mwy o bobl yn hawlio'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) a'r budd-dal analluogrwydd blaenorol (IB/SDA) na chyfartaledd Cymru a'r DU.

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2013 yn nodi fod gan Abertawe gyfran uwch na'r cyfartaledd o ACEH (17 o 147 neu 12%) yn y 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. 7 yn unig o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru sydd â chyfran uwch o ACEHI difreintiedig. Yn gyffredinol, lefelau amddifadedd sy'n ymwneud â meysydd Addysg, Incwm ac Iechyd sydd o'r arwyddocâd mwyaf yn Abertawe, gyda lefelau amddifadedd is na'r cyfartaledd yn y meysydd Mynediad i Wasanaethau, Tai a'r Amgylchedd Ffisegol.

Dros y deng mlynedd diwethaf, mae disgwyliad oes yn Abertawe wedi cynyddu tua 2½ flynedd i wrywod a benywod. Fodd bynnag, mae ystadegau o Arsyllfa lechyd Cyhoeddus Cymru (2005-09) yn awgrymu bod bwlch disgwyliad oes yn Abertawe rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig tua 12 mlynedd i wrywod a 7 mlynedd i fenywod. Mae'r bwlch disgwyliad oes iach bron yn 23 blynedd i wrywod a 15 blynedd i fenywod.

Mae gan bron 1 o bob 4 person (23.3%) sy'n byw yn Abertawe gyflwr iechyd neu anabledd tymor hir. Mae hyn ychydig uwch na chyfartaledd Cymru, sef 24.7%, ond mae'n is na'r cyfran yn 2001, sef 24.7%. Mae 1 o bob 8 (12.7%) o bobl sy'n byw yn Abertawe yn darparu gofal di-dâl i berthynas neu ffrind ar hyn o bryd. Mae oddeutu 43% o bobl sy'n darparu gofal di-dâl yn darparu 20 awr neu fwy o ofal bob wythnos.

Heriau

Mae heriau allweddol ar gyfer Abertawe yn cynnwys denu buddsoddiadau economaidd, adfywio canol dinas Abertawe a chymunedau ar draws Abertawe, creu cyfleoedd cyflogaeth o safon, pwysau demograffaidd a galw cynyddol am wasanaethau cyhoeddus, ac mae'r cyfan mewn cyfnod o doriadau sylweddol i wariant cyhoeddus.

Mae galw cynyddol am wasanaethau cyhoeddus - sy'n gysylltiedig â'r dirwasgiad, diwygiadau lles a phoblogaeth sy'n heneiddio - sy'n rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymedithasol ac ar yr un pryd mae cyllidebau gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu toriadau digynsail.

Mae pwysau perthnasol ar wasanaethau cyhoeddus yn cynnwys ymdrechion i reoli galw, gwella effeithlonrwydd, atal ac ymyrryd yn gynnar, modelau newydd a rhaglenni newid diwylliannol gyda'u gweithlu a'u cwsmeriaid.

Un o'r heriau mwyaf hirsefydlog sy'n wynebu Abertawe yw lleihau anghydraddoldebau o ran iechyd, addysg, cyflogaeth a chyfleoedd bywyd rhwng pobl sy'n byw yng nghymunedau gwahanol Abertawe. Tynnwyd sylw at hyn yn ddiweddar mewn gwaith ymchwil a wnaed gan lechyd Cyhoeddus a ganfu gwahaniaeth o 12 mlynedd o ran disgwyliad oes rhwng pobl sy'n byw yn nwyrain a gorllewin y ddinas.

Lle i gael mwy o wybodaeth: -

Cynllun Corfforaethol Cyflawni dros Abertawe 2015/17

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau am gynnwys y cynllun hwn, gallwch gysylltu â Perfformiad a Chyflawni drwy e-bostio improvement@swansea.gov.uk neu drwy ffonio 01792 636000.